

Patrwm cyflwyno: Hydref – Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn archwilio egwyddorion, cysyniadau a thechnegau rheoli gwasanaethau TG, y broses o nodi a deall gofynion, a'r gwaith o reoli prosiectau sy'n darparu gwasanaethau TG ac yn bodloni gofynion.

Bydd y modiwl yn gosod egwyddorion cyffredinol rheoli TG yng nghyd-destun penodol y broses o fodelu datrysiadau data a gweithredu a gweinyddu cronfa ddata.

Bydd myfyrwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys defnyddio gwaith tîm ymarferol fel cyfrwng lle y caiff cwestiynau 'pam, beth a sut' ynghylch rheoli TG eu harchwilio. Bydd tiwtoriaid yn helpu myfyrwyr drwy diwtorialau ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn Technoleg Gwybodaeth neu bwnc cysylltiedig
- gwybodaeth am ddamcaniaethau academiaidd ac ymarfer proffesiynol naill ai ym maes rheoli prosiect neu reoli gwasanaeth, neu'r ddau
- profiad naill ai ym maes rheoli prosiect neu reoli gwasanaeth, neu'r ddau
- ymwybyddiaeth o fframwaith Rheoli Gwasanaeth ITIL neu fframwaith rheoli gwasanaeth megis PRONCE2 neu'r Corff o Wybodaeth Rheoli Prosiect.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am ddamcaniaethau academiaidd ac ymarfer proffesiynol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: ysgogi a dadansoddi gofynion, modelu cysyniadol, gweithredu a gweinyddu cronfa ddata
- profiad o weithio mewn tîm, naill ai mewn amgylchedd rheoli gwasanaeth TG neu mewn amgylchedd prosiect TG
- profiad o weithio mewn timau o bell, gan ddefnyddio adnoddau cydamserol ac anghydamserol i gyfathrebu
- profiad o gefnogi timau myfyrwyr o bell
- profiad o reoli sefyllfaoedd heriol o bell
- profiad o ymarfer myfyriol personol ac ysgogi eraill i fod yn ymarferwyr myfyriol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5